

EVANS, HUGH (1712-1781), gweinidog ac athro gyda'r Bedyddwyr

Enw: Hugh Evans
Dyddiad geni: 1712
Dyddiad marw: 1781
Plentyn: Caleb Evans
Rhiant: Caleb Evans
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog ac athro gyda'r Bedyddwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Aelod o deulu y mae ei hanes ynghlwm â hanes Bedyddwyr Maesyfed a gogledd Brycheiniog; yn wir, fe'i henwyd ar ôl **Hugh Evans (a fu farw 1656)**, arloesydd yr enwad yn y parthau hynny, serch nad oedd o'r un teulu ag ef.

Cydlafuriai ei daid **THOMAS EVANS (bu farw 1688)**, â **Henry Gregory**, ond nid oedd yn Armin fel **Gregory**; rhoddwyd plwyf Maesmynus iddo gan y Profwyr, bwriwyd ef allan yn 1660, bu raid iddo symud i Lanafan Fawr mewn canlyniad i'r Ddeddf Bum Milltir, a thrwyddedwyd ef yno dan Oddefiad 1672.

Mab i **Thomas Evans** oedd **CALEB EVANS (1676 - 1739)**, a gododd drwydded bregethu yn 1705, a ddaeth yn weinidog y Pentre, ac a fu farw 12 Ebrill 1739.

HUGH EVANS (1712 - 1781), gweinidog ac athro gyda'r Bedyddwyr

Bu Hugh Evans, mab Caleb Evans, yn academi Llwynllwyd dan **David Price**; ym Mryste (lle'r oedd modryb iddo'n byw) y bedyddiwyd ef, ac yn 1740 dewiswyd ef yn gynorthwyr i Bernard Foskett, gweinidog eglwys Broadmead a phennaeth academi'r Bedyddwyr yno; ar farwolaeth Foskett (1758) dilynodd Hugh Evans ef yn y ddwy swydd. Bu farw 28 Mawrth 1781. Yn gynorthwyr iddo yn 1758, ac yn olynydd iddo yn 1781, daeth ei fab

CALEB EVANS (1737 - 1791), gweinidog ac athro gyda'r Bedyddwyr

Ganwyd ym Mryste 12 Tachwedd 1737. Cyhoeddodd hwn amryw lyfrau, ond fe'i cofir yn bennaf am iddo yn 1778 ddyfod allan i amddiffyn y gwrthryfelwyr yn America yn erbyn John Wesley. Serch iddynt adael Cymru, ni cholodd y tad a'r mab mo'u cyswllt â hi. Edrydd **Joshua Thomas** y byddai Hugh Evans yn rheolaidd yng nghyrrddau'r gymnafa Gymraeg, ac iddo bregethu ynddi 17 o weithiau - 'pregethai bob amser yn Saesneg, ac ailadrodd ychydig yn Gymraeg.' Am Caleb Evans, 'nid oedd ef yn deall Cymraeg,' eto byddai'n troi i mewn i'r gymnafa, a phregethodd ynddi chwe gwaith. Yr oedd dylanwad y ddau ar Fedyddwyr Cymru 'n fawr, ac atynai eu hathrofa ym Mryste Gymry ifainc galluog megis **William Richards (1749 - 1818)**, Llynn.

CALEB EVANS (bu farw 1790), ysgolfeistr

Yr oedd Caleb Evans arall, hanner-brawd i Hugh Evans. Ysgolfeistr oedd ef, ac er y byddai'n pregethu, ni bu erioed â gofal eglwys arno. Bu'n athro yn athrofa'r Bedyddwyr yn Nhrosnant yn 1739; erlynwyd ef yno dan y ' Schism Act,' ond gwaredwyd ef gan y ' Dissenting Deputies ' yn Llundain (**Spinker**, iii, 83). Bu wedyn yn cadw ysgol am gryn 20 mlynedd ym Mryn Buga, ac wedyn ym Mryste, lle y bu farw yn 1790; ŵyr iddo ef oedd **John Evans (1767 - 1827)** o Islington. Aeth amryw eraill o'r Evansiaid hyn i'r weinidogaeth gyda'r Bedyddwyr.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Joshua Thomas, *Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry: o amser yr Apostolion, hyd y flwyddyn hon: yn ddwy ran* (Caerfyrddin 1778) (dan 'Dolau' a 'Pentre')

Joshua Thomas, *A History of the Baptist Association in Wales* (1795)

Y Gwyddoniadur Cymreig (1889) (2il arg.), x, 578, 574

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 305233813

Wikidata: Q20733188

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfedyddiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION

